COFNODION CYFARFOD CYNGOR TREF BAE COLWYN A GYNHALIWYD YN SIAMBR Y CYNGOR, NEUADD Y DREF, FFORDD RHIW, BAE COLWYN, NOS LUN, 29AIN EBRILL 2019 AM 6.30 P.M.

YN BRESENNOL: Maer y Dref, Y Cynghorydd S Williams (Cadeirydd)
Y Cynghorwyr Mrs G Baker; N. Bastow, Mrs H. Fleet; D. Howcroft, C. Hughes, M.A. Jones, Mrs M. Jones; A. Kealey, A Khan, C. Matthews, Mrs H. Meredith, J Pearson, M. Pickard, M. Worth.

SWYDDOG: Mrs C. J. Earley, Clerc y Dref

HEFYD YN BRESENNOL: Rachael Simmonds, Prif Swyddog Ieuenctid , CBS Conwy
Cynghorydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy B. Cossey
Nifer fawr o'r cyhoedd

452/18 <u>Croeso ag Ymddiheuriadau am Absenoldeb:</u>

Croesawyd yr Aelodau i'r cyfarfod gan y Maer a chyflwynwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorwyr B. Barton, A. Mason, A. Pearson P Richards, Mrs K. Swindon, M. Tasker a Chynghorydd C. Carlisle o GBS Conwy.

453/18 <u>Cyhoeddiadau gan y Maer:</u>

Yna cafwyd y cyhoeddiadau byr canlynol gan y Maer:

a. Bydd arddangosfa ffotograffiaeth yn cael ei gynnal yn Theatr Colwyn, nos Wener (6.30pm hyd at 9pm) yn nodweddu ffotograffiaeth flodeuol Tessa Bunney Photography.
b. Cafwyd noson lwyddiannus iawn wrth gyflwyno'r Gwobrau Gwirfoddolwyr a'r Grantiau Mawr, gydag oddeutu 70 o bobl yn bresennol. Roedd presenoldeb gan y Cynghorwyr Tref fodd bynnag, yn hynod o siomedig gyda phump yn unig yn bresennol. Gofynnwyd i'r Aelodau cefnogi'r digwyddiad pwysig hwn yn y dyfodol.

454/18 <u>Datgan Cysylltiadau:</u>

Atgoffwyd yr aelodau o'r angen iddynt ddatgan unrhyw gysylltiad personol a / neu gysylltiad sy'n rhagfarnu, a natur y fath gysylltiadau. Ni ddatganwyd dim.

455/18 <u>Ymwelwyr â'r Cyngor:</u>

a. Croesawyd Rachael Simmonds, Prif Swyddog Ieuenctid Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy (CBSC) i'r cyfarfod gan y Maer er mwyn iddi annerch y Cyngor ar y newidiadau i Wasanaeth Ieuenctid Conwy. Diolchodd Rachael i'r Cyngor am y gwahoddiad i fod yn bresennol ac eglurodd ei bod yn weddol newydd yn ei swydd (ers Chwefror) ond bu'n gweithio i'r Gwasanaeth Ieuenctid am dros deg mlynedd.

   Cafodd Gwasanaeth Ieuenctid Conwy ei ail strwythuro yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, dan arweiniad Marianne Jackson (Cyfarwyddwraig Strategol) a Jane Williams (Pennaeth y Gwasanaeth). Bu'n rhaid gwneud hyn oherwydd bwysedd ariannol, gyda'r canlyniad nad oedd y gwasanaeth yn gynaliadwy a chlybiau ieuenctid yn dechrau cau. Bu timau Gwasanaethau Cymdeithasol, Addysg a Chyfiawnder Ieuenctid oll yn rhan

o'r trafodaethau hyn ac fe benderfynwyd canolbwyntio'r gwasanaeth ar y pum ardal newydd o ganolfannau teulu. Bydd gweithwyr ieuenctid yn cydweithio gyda swyddogion proffesiynol eraill sy'n gweithio gyda theuluoedd, yn cynnwys gweithwyr cymdeithasol, ymwelwyr iechyd ayb. Bydd gan yr Ardal Ganol, sy'n ymestyn o Landdulas i Mochdre, un Swyddog Ieuenctid, a leolir yn y lle cyntaf yng Nghoed Pella, a Gweithiwr Ieuenctid rhan amser, yn gweithio 18.5 awr yr wythnos ar nosweithiau, ynghyd a mwy o staff cefnogol rhan amser. Hefyd, fe ddarperir cefnogaeth i'r pum ardal i dargedu a chanolbwyntio ar sgiliau a'r amgylchedd (gwobrau DofE) ag 'Aces' sy'n targedu'r rhai a ddioddefodd profiadau niweidiol yn eu plentyndod. Bydd y gwaith yma yn cysylltu yn agos gyda gwasanaethau cymdeithasol ac addysg. Bwriedir hefyd i dargedu darpariaeth ar gyfer gwyliau ysgol, pan fydd pobl ifanc eisiau mynd i rywle. Mae yna hefyd raglen 'Adtrac' sydd wedi ei gyllido o Ewrop tan 2020/21, sy'n cefnogi pobl ifanc rhwng 16 ac 18 i waith addysgiadol.

Yn dilyn y cyflwyniad, cafwyd sesiwn byr o holi ag ateb, gyda chwestiynau yn ymdrin â: a yw'r heddlu yn cefnogi / cyllido paratoadau ar gyfer gwyliau (ydynt, mae PACT yn cefnogi wrth gyllido gwibdeithiau ayb); sut caiff y swyddi presennol eu llenwi; a fu unrhyw ddiswyddiadau gorfodol (na, er i rai swyddi cael eu lawr-raddio); newidiadau wrth gyflwyno sesiynau DofE (rhoi'r cyfrifoldeb am drwyddedau yn ôl i ysgolion ac i'w wneud yn fwy hygyrch i bobl ifanc o gymunedau difreintiedig, er enghraifft, cwrs dwys am bythefnos ar adeg gwyliau ysgol); oes unrhyw un yn gyfrifol am leihau triwantiaeth (RS i anfon manylion am swyddogion cydlynu ysgolion sy'n anfon adroddiadau'n uniongyrchol i'r ysgolion); beth oedd y gostyngiad yn lefel y staff o ganlyniad i'r ailstrwythuro (tua 8 o swyddi FTE yn llai na 20017).

Fe nodwyd bod y ddarpariaeth bresennol at gyfer ieuenctid yn yr ardal hon yn cynnwys Ffordd Douglas (un noson), sesiynau Cadw'n Heini Gwener yng Nghanolfan Hamdden Colwyn, Llysfaen (un noson), a Mochdre. Y Swyddog Ieuenctid Ardal bydd yn gyfrifol am adolygu'r ddarpariaeth hwn ac i ystyried yr angen am sesiynau ychwanegol, e.e yn Tan Lan a Llandrillo yn Rhos ac / neu nosweithiau ychwanegol yn y clybiau presennol megis Bae Colwyn.

Diolchwyd i Rachael am fod yn bresennol ac yna gadawodd y cyfarfod.

b. Fe nodwyd bod yr Arolygydd Dosbarth Julie Sheard am ddod i gyfarfod y Cyngor ar 10fed Mehefin.

c. Croesawyd Cynghorydd Bwrdeistref Sirol Conwy B. Cossey i'r cyfarfod gan y Maer ac fe'i gwahoddwyd i roi adroddiadau / diweddariadau ar unrhyw faterion o'r Cyngor Sir a fyddai o ddiddordeb lleol.

Cadarnhawyd gan y Cynghorydd Cossey bod y Cyngor Sir wedi codi'r dreth cyngor o 9.6%, a bod hyn dal i fod yn rhatach na Gwynedd a Sir Ddinbych. Cadarnhaodd bod grwpiau Tasg a Gorffen wedi cael eu sefydlu i edrych ar Addysg (i gynnwys adolygu'r ysgolion a'r cyllidebau canolog) a Gwasanaethau Cymdeithasol, sef y ddau wasanaeth mwyaf y Cyngor. Sefydlwyd Grŵp Tasg a Gorffen a Darpariaeth Chwarae ac fe benodwyd Cynghorydd M. Worth iddo ar ran Cynghorau Tref a Chymuned yr Ardal Ganol. Cadarnhaodd nad oes angen i bob 'man chwarae' cael offer

chwarae ffurfiol. Mae'r staff yn adolygu'r ddarpariaeth bresennol a bydd y grŵp yn cyfarfod unwaith eto pan fydd y gwaith hwn wedi ei gwblhau..

Cyfeiriodd hefyd at bum tendr a dderbyniwyd i adeiladu Pier a gwtogwyd ac fe obeithir y gellir penodi contractwr yn fuan, a'r gwaith efallai i gynnwys rhyw faint o golofnau golau addurniadol / copi ychwanegol.

Yna gadawodd y Cynghorydd Cossey'r cyfarfod a chafwyd adroddiad pellach gan y Cynghorydd C. Hughes yn datgan ei bryderon am y tebygolrwydd o fwy o doriadau yn y cyllid a dderbynnir gan Lywodraeth Cymru o San Steffan a'r risg sylweddol o fwy o doriadau yng nghyllidebau Awdurdodau Lleol.

456/18 <u>Cofnodion:</u>

a ***Penderfynwyd cymeradwyo a llofnodi cywirdeb cofnodion cyfarfod diwethaf y Cyngor a gynhaliwyd ar 4ydd Mawrth 2019.***

b. ***Penderfynwyd <u>derbyn</u> copi o gofnodion y cyfarfodydd canlynol:***
i. Pwyllgor Amcanion Cyffredinol a Chynllunio ar 19eg Mawrth 2019.
ii. Pwyllgor Polisi a Chyllid a gynhaliwyd ar 27ain Mawrth 2019 (drafft)
iii. Pwyllgor Amcanion Cyffredinol a Chynllunio a gynhaliwyd ar 9fed Ebrill 2019 (drafft.)
iv. Pwyllgor Colwyn yn ei Blodau a gynhaliwyd ar 21ain Chwefror 2019 (drafft).

457/18 <u>Materion yn Codi o'r Cofnodion Hynny :</u>

a) Cofnod 403/18(c)(ii) – Brandio'r Dref:

i. Cyflwynodd y Clerc adroddiad byr yn dilyn ei chyfarfod gyda Rheolwr BID ar 4ydd Ebrill, a gofynnwyd i'r Aelodau ystyried a oedd brand dewisol BID 'Ni yw Bae Colwyn' yn briodol ar gyfer y trigolion, twristiaeth yn ogystal â'r sectorau cymunedol / gwirfoddol. Cyflwynwyd hefyd, copi o frand BID ynghyd a delweddau gan Gwmni Twristiaeth Gogledd Cymru gyda'r adroddiad.

Mynegwyd pryder am y gymysgedd o'r defnydd o lythrennau bach a llythrennau mawr. Barn rhai o'r Aelodau oedd bod hyn yn anfon neges anghywir i bobl ifanc. Roedd Ysgolion angen ein cefnogaeth i gryfhau'r angen am ramadeg a sillafu cywir. Roedd yr Aelodau yn deall gall hyn weithio ym myd rhai busnesau, ond mynegwyd pryder nad oedd hwn yn frand a fyddai'n addas i'w ddefnyddio ar gyfer treftadaeth, diwylliant, twristiaeth ayb. Gofynnwyd hefyd sut allai brand BID effeithio ar Mochdre, nad yw yn rhan o ardal Bae Colwyn.

Penderfynwyd gofyn i'r Clerc adrodd yn ôl i Byw yn y Bae i gadarnhau bod y Cyngor Tref yn ymwybodol bod BID Colwyn eisoes wedi mabwysiadu ei brand dewisol, ond nid yw hwn yn frand yr hoffai'r Cyngor Tref fod yn gysylltiedig ag ef.

ii **Arwyddion Croeso:** Cyflwynodd y Clerc dyluniad drafft Arwyddion Croeso, prosiect sy'n cael ei arwain gan Colwyn yn ei Blodau gyda chefnogaeth (a chyllid) gan BID Colwyn. Gofynnwyd i'r Aelodau ystyried elfennau dylunio a thestun arfaethedig yr arwyddion a fyddai mewn dwy ran. Bydd y rhan uchaf yn cael ei lunio i gynnwys arfbais y

dref a 'Croeso' / 'Welcome' ynghyd ag enw'r gymuned (Hen Golwyn, Bae Colwyn, Llandrillo yn Rhos a Mochdre - arwyddion Mochdre i gael eu cyllido gan BID Colwyn). Fe ychwanegir plât o dan y prif arwydd croeso, i gynnwys 'Bae Colwyn / Bay of Colwyn', logo RHS ag 'enillydd medal aur'.

Gofynnwyd a fyddai'n bosibl i ychwanegu delweddau mwy diddorol megis arwyddion Cyffordd Llandudno (llun o drên). Adroddodd y Clerc, fodd bynnag, iddi gael gwybod bod y safonau dylunio yn gyfyngedig iawn ar gyfer arwyddion Priffyrdd a bydd angen cymeradwyaeth Llywodraeth Cymru am unrhyw destun / dyluniad nad oedd yn safonol, neu caiff ei drin fel hysbysiad, gyda'r angen wedyn am ganiatâd cynllunio.

Penderfynwyd cymeradwyo'r dyluniad drafft yr arwyddion croeso a'r plât isod, yn amodol ar gymeradwyaeth o'r dyluniadau terfynol, i gadarnhau maint / lliwiau ayb.

b) Cofnod 403/18(c)(iii) – Cyfarfod Rhwydwaith y Clercod:

Cyflwynodd y Clerc, er gwybodaeth, nodiadau'r cyfarfod diweddar gyda Chlercod Mochdre a Llysfaen a gofynnwyd i'r Aelodau ystyried / cadarnhau'r argymhellion yn adran 4.

Penderfynwyd cadarnhau'r argymhellion i gydweithio'n agosach gyda'r cynghorau tref a chymuned yn yr adran ganol yn y dull a amlinellwyd yn adroddiad y Clerc.

c) Cofnod 404/18 - Promenâd Hen Golwyn:

Cyflwynodd y Clerc, er gwybodaeth, ymateb a dderbyniwyd oddi wrth GBS Conwy, Network Rail a Dŵr Cymru. Fe nodwyd y disgwylid atebion oddi wrth Bennaeth ERF, CBSC a dwy adran o Lywodraeth Cymru.

Penderfynwyd gofyn i'r Clerc atgoffa'r rhai nad oedd wedi ymateb, bod angen eu sylwadau.

ch. Yna gofynnwyd i'r Aelodau ystyried a chadarnhau argymhellion y Pwyllgorau fel maent yn ymddangos yn y Cofnodion canlynol:

(i) **Cofnod 428/18(b) – Ymrwymo gydag Ieuenctid:**

Cyflwynodd y Clerc adroddiad diweddariad ag argymhellion i ymrwymo gydag ieuenctid. Fe nodwyd y bwriad i argymhellion 4.2.i 4.7 cymryd lle'r argymhelliad gwreiddiol (4.1) i roi strategaeth ymrwymo gyda phobl ifanc a fyddai'n gallu addasu i'r gwahanol resymau dros ymrwymo.

Cadarnhaodd y Cynghorydd A. Kealey ei gefnogaeth i'r dull yma a gofynnodd i'r Aelodau ymrwymo mwy a chefnogi unrhyw bobl ifanc sy'n dangos diddordeb mewn democratiaeth leol neu wleidyddiaeth.

Penderfynwyd mabwysiadu pwyntiau 4.2 i 4.7 o'r adroddiad (fel manylir yn Atodiad 'A' sydd gyda hwn) i fod yn strategaeth y Cyngor Tref ar Ymrwymo gydag Ieuenctid.

(ii) Cofnod 433/18 – Ethol Cadeirydd ac Is-Gadeirydd Pwyllgorau:

Gofynnwyd i'r Aelodau ystyried cais i ddiwygio'r Rheolau Sefydlog a ddiweddarwyd yn ddiweddar, fel gall Pwyllgorau'r Cyngor ethol eu Cadeiryddion ac Is-Gadeiryddion eu hunain yn y cyfarfod cyntaf yn dilyn eu hail benodiad pob blwyddyn.

Penderfynwyd cymeradwyo diwygio Rheolau Sefydlog 4d(vi) a 4d(vii), fel y manylir yn Atodiad 'B' sydd gyda hwn.

(iii) Cofnod 439/18(b)(iii) – Cyllido Prif Ddigwyddiadau CBSC 2019:

Penderfynwyd gohirio'r eitem yma tan ddiwedd y cyfarfod er mwyn i'r Cyngor gwahardd y cyhoedd tra bo gwybodaeth gyfrinachol, sy'n berthnasol i ddigwyddiad Rali GB Cymru, yn cael ei drafod.

(iv) Cofnod 439/18(c) – Grantiau Bychan:

Penderfynwyd cymeradwyo'r casgliad olaf o grantiau bychan 2018/19 fel y manylir yn Atodiad 'C' i'r cofnodion hynny ac i gynnwys cyfraniadau o'r hyn sy'n weddill i Gronfa Ymddiriedolaeth Syr John Henry Morris Jones ag Elusennau Llandrillo.

d. ***Penderfynwyd nodi holl benderfyniadau'r Pwyllgorau fel y maent yn ymddangos yn y Cofnodion.***

458/18 <u>Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy (CBSC):</u>

Penderfynwyd derbyn cofnodion Fforwm Cynghorau Tref a Chymuned a Chyfarfod Rhwydwaith y Clercod a gynhaliwyd ar 29 Ionawr 2019.

459/18 <u>Gweithgor Asedau a Gwasanaethau:</u>

(a) Cyflwynodd y Clerc nodiadau o gyfarfod cyntaf y grŵp a gynhaliwyd ar 27ain Mawrth. Fe nodwyd bod Cyngor Cymuned Llysfaen wedi cymeradwyo penodiad aelodau i grŵp llywio ar y cyd a disgwylir ymateb gan Gyngor Cymuned Mochdre a Chyngor Cymuned Betws yn Rhos.

(b) ***Penderfynwyd cymeradwyo Cylch Gorchwyl y Grŵp fel y dangosir yn Atodiad 'C' sydd gyda hwn.***

460/18 <u>Hyfforddiant ACT (ar gyfer Digwyddiadau):</u>

Cyflwynodd y Clerc er gwybodaeth, nodiadau o'r sesiwn hyfforddi a gynhaliwyd yn ddiweddar. Rhoddodd y Cynghorydd S. Williams adroddiad byr ar lafar, fel un o'r Aelodau a fu'n bresennol. Nodwyd y bu'r cyflwyniad yn ddiddorol ac yn berthnasol a chafodd derbyniad da gan drefnwyr y digwyddiad oedd yn bresennol.

461/18 <u>Pwyllgor Cofeb Rhyfel Hen Golwyn:</u>

Rhoddodd y Clerc adroddiad byr ar lafar, yn dilyn cyfarfod y Grŵp a gynhaliwyd ar 9fed Ebrill. Fe nodwyd nad oedd y cynrychiolwyr a benodwyd gan y Cyngor Tref wedi gallu bod yn bresennol, ond cafodd y Clerc wybod mai'r Eglwys yng Nghymru sy'n gyfrifol am bob agwedd o'r gofeb, am ei fod wedi ei leoli ar dir yr Eglwys. Pwrpas y Pwyllgor yw cefnogi'r Eglwys gyda

gwaith cynnal a chadw parhaol ac i fod o gymorth wrth drefnu Sul y Cofio blynyddol. Bydd cynrychiolwyr y Cyngor Tref yn cael eu hailbenodi yn y cyfarfod ar 10fed Mehefin. Roedd y Cynghorydd Bradley wedi mynegi efallai y bydd yn gorfod ildio'i sedd oherwydd yr anhawster caiff o fynychu cyfarfod yn ystod y dydd.

Derbyniwyd diweddariad gan y Clerc hefyd, ynglŷn â changen leol y Lleng Prydeinig. Trosglwyddwyd gweinyddiad y gangen i'r Dosbarth ac fe all hyn effeithio ar y gefnogaeth / cysylltiad gyda Gwasanaeth y Cofio. Dywedodd y Clerc wrth yr Aelodau ei bod am drefnu cyfarfod ym Mehefin i drafod digwyddiad eleni.

Penderfynwyd gofyn i'r Clerc ceisio mwy o wybodaeth gyswllt am Fand Pib Everton & District ac i geisio eu llogi mor fuan ag sy'n bosibl.

462/18 <u>Diwrnod Pobl Hŷn yn Eglwys St Paul:</u>

Rhoddodd y Cynghorwyr G. Baker a C. Matthews adroddiad byr ar lafar am y digwyddiad lle cafwyd presenoldeb / cefnogaeth dda. Fe nodwyd i bresenoldeb y Cyngor Tref yn y digwyddiad cael ei groesawu.

Penderfynwyd nodi'r adroddiad.

463/18 <u>Yr Adroddiad Blynyddol:</u>

Cyflwynodd y Clerc drafft cyntaf Adroddiad Blynyddol 2018/19 i'w ystyried, a rhoddodd adroddiad byr am rai ychwanegiadau arfaethedig, yn dilyn adolygiad o adroddiad llwyddiannus Cyngor Tref Llanrwst.

Penderfynwyd rhoi awdurdod i ychwanegu'r adrannau canlynol ac i roi awdurdod dirprwyol i Bwyllgor Amcanion Cyffredinol a Chynllunio i adolygu'r drafft terfynol cyn iddo gael ei fabwysiadu i'w gyhoeddi yn y Cyfarfod Blynyddol ym mis Mai.

- ***a Y wybodaeth ddiweddaraf ar incwm a gwariant yn 2018/19 wedi cwblhau'r cyfrifon blynyddol.***
- ***b Crynodeb o ddigwyddiadau 2018/19 - gwybodaeth ychwanegol a rhai ffotograffau***
- ***c Dyheadau am y flwyddyn sy'n dod - ychwanegu: ymrwymo gyda CBS ar ddiweddaru'r Cynllun Datblygu Lleol; partner ym mhrosiect DYCHMYGU Bae Colwyn; arwyddion Croeso.***
- ***ch Rhestr o gyfarfodydd y Cyngor a'r Pwyllgorau am 2019/20***
- ***d Cofnodion o bresenoldeb yr Aelodau a pharagraff arweiniol.***
- ***dd Cyflwyniad am bob ward a linc i ystadegau allweddol ar wefan CBSC***
- ***e Ceisiadau Cynllunio - esboniad o swyddogaeth y Cyngor Tref a linc i Planning Explorer a thudalen agenda (cyfarfodydd AC&Ch – rhestrau o geisiadau cynllunio).***

464/18 <u>Enwebiadau ar Gyfer Maer y Dref a Dirprwy Faer 2019/20:</u>

Gofynnodd y Maer am enwebiadau ar gyfer y swyddi hyn, er mwyn paratoi am y Cyfarfod Blynyddol sydd i'w gynnal ar 13eg Mai. Cyflwynodd y Clerc yr

adrannau priodol o Reolau Sefydlog y Cyngor a rhestr o hynafedd aelodau ar y Cyngor fel arweiniad.

Cynigiwyd ac eiliwyd penodiad y Cynghorydd N. Bastow, y Dirprwy Faer, i fod yn Faer Etholedig am Flwyddyn Drefol 2019/20. Derbyniodd y Cynghorydd Bastow'r enwebiad a gafodd ei gefnogi'n unfrydol.

Cynigiwyd ac eiliwyd penodiad y Cynghorydd Merrill Jones i fod yn Ddirprwy Faer Etholedig am Flwyddyn Drefol 2019/20. Gan nad oedd unrhyw enwebiad arall, mynegodd y Cynghorydd Jones ei pharodrwydd i dderbyn yr enwebiad ac fe gymeradwywyd hyn yn unfrydol.

465/18 <u>Cynrychiolwyr ar Fudiadau Allanol:</u>

Cyflwynodd y Clerc copi o'r rhestr gyfredol o benodiadau ac fe nodwyd bydd y penodiadau hyn yn cael eu hadolygu ar 10fed Mehefin.

Penderfynwyd gofyn i bob Aelod gadael i'r Clerc wybod erbyn 31ainMai os ydynt am adael y mudiadau allanol y penodwyd hwynt i gynrychioli.

466/18 <u>Cyngerdd Jess Glynne:</u>

Fe nodwyd y gofynnwyd i'r Aelodau cysylltu â'r Clerc os oedd ganddynt ddiddordeb i gael eu hystyried ar gyfer bwrdd y Cyngor Tref yn y digwyddiad. Cyflwynwyd naw enw, yn cynnwys y Maer a'i Gymar a gofalwr y Cynghorydd H. Meredith.

Penderfynwyd cadarnhau presenoldeb rhain ac i ddosbarthu'r un sy'n weddill ar sail y cyntaf i'r felin.

467/18 <u>Cofnod 439/18(b)(ii) - Cyllido Prif Ddigwyddiadau CBSC yn 2019:</u>

Penderfynwyd gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod er mwyn i'r Cyngor cael trafod gwybodaeth gyfrinachol parthed digwyddiad Rali Cymru GB yn 2019.

Rhoddodd y Clerc adroddiad byr ar lafar i roi amlinelliad byr am y digwyddiad arfaethedig. Fe nodwyd bod y manylion hyn yn gyfrinachol ar hyn o bryd, wrth ddisgwyl am ddatganiad i'r wasg / digwyddiad lansio.

Penderfynwyd cymeradwyo taliad o £15,000 tuag at ddigwyddiadau yng nghanol y dref mewn perthynas â Digwyddiad Rali GB Cymru yn 2019, yn amodol ar dderbyn ymateb boddhaol i gais y Pwyllgor am ddigwyddiadau cysylltiedig 'gwyrdd' ag ymdrechion i atal pobl ifanc rhag cael eu hannog i yrru'n rhy gyflym ar briffyrdd cyhoeddus.

Daeth y Cyfarfod i ben am 8.30pm .....Cadeirydd

MINUTES OF A MEETING OF THE BAY OF COLWYN TOWN COUNCIL, HELD IN THE COUNCIL CHAMBER, TOWN HALL, RHIW ROAD, COLWYN BAY, AT 6.30 P.M. ON MONDAY 29TH APRIL 2019

PRESENT: The Mayor, Cllr S Williams
Cllrs: Mrs G Baker; N Bastow; H Fleet; D Howcroft; C Hughes;
M A Jones; Mrs M Jones; A Kealey; A Khan; C Matthews; H Meredith; J Pearson; M Pickard; M Worth
OFFICER: Mrs C Earley, Town Clerk
IN ATTENDANCE: Rachel Simmonds, Principal Youth Worker, Conwy C.B.C.
County Councillors: B Cossey
Several members of the public

452/18 Apologies for Absence:

The Mayor welcomed members to the meeting and apologies for absence were received from Cllrs: B Barton; A Mason; P Richards; T Pearson; K Swindon; M Tasker and County Cllr C Carlisle

453/18 Announcements:

The Mayor then made the following brief announcements:

a. There is a photography exhibition opening at Theatr Colwyn on Friday evening (6:30pm to 9:00pm) featuring floral photography by Tessa Bunney Photography.
b. The Volunteer Awards and Large Grants presentation evening had gone well, with approximately 70 people in attendance. However, attendance from town councillors had been disappointingly low, with just five present. Members were asked to support this important event in future years.

454/18 Declarations of Interest:

Members were reminded that they must declare the existence and nature of any personal and/or prejudicial interests.

455/18 Visitors to the Council:

a. The Mayor welcomed Rachel Simmonds, Principal Youth Officer, CCBC, to address the Council regarding changes to Conwy's Youth Service. Rachel thanked the Council for the invitation to attend and explained that she was relatively new in post (since February), but had worked for the Youth Service for over ten years.

   The Conwy Youth Service has been through a restructuring during the past 12 months, led by Marianne Jackson (Strategic Director) and Jane Williams (Head of Service). This was due to funding pressures, resulting in the service not being sustainable and youth clubs starting to close. The Social Services, Education and Youth Justice teams had been involved in these discussions and it had been decided to focus the service around the five new family centre areas. Youth workers will be based alongside other professionals working with local families, including social workers, health

visitors, etc. The Central area, which covers the coastal area from Llanddulas to Mochdre, will have one area Youth Worker, initially based in Coed Pella, plus a part-time youth worker working 18.5 hours in the evenings and other supporting part-time staff. There will also be targeted provision supporting all five areas focussing on skills and environment (DofE awards) and targeting 'Aces' – those who have suffered adverse childhood experiences. This work will link closely with social services and education. It is also intended to provide targeted provision in the school holidays, when young people may need somewhere to go. There is also an 'Adtrac' programme, which has European funding until 2020/21 and assists 16-18 year olds into educational employment.

A brief question and answer session followed the presentation, with questions asked about: whether the police support/fund the holiday provision (yes, PACT assists with funding for trips etc); how the current vacancies will be filled; whether there had been any compulsory redundancies (no, though some posts had been downgraded); changes to the delivery of DofE sessions (to hand the responsibility for licenses back to schools and to make it more accessible to young people from deprived communities, for example through a two week intensive school holiday course); whether there is anyone responsible for reducing truancy (RS to provide contact details school liaison officers for reports to be made directly to schools); what have been the reduction in staff numbers as a result of the restructuring (approx. 8 FTE posts less than in 2007).

It was noted that the current youth club provision in this area includes Douglas Road (one evening), Friday Fitness sessions at Colwyn Leisure Centre, Llysfaen (one evening) and Mochdre. The Area Youth Worker will be responsible for reviewing this provision and considering the need for additional sessions, e.g. in Tan Lan and Rhos on Sea and/or additional nights at existing clubs like Colwyn Bay.

Rachel was then thanked for attending and she retired from the meeting.

b. It was noted that District Inspector Julie Sheard will be attending the Council meeting on 10th June.

c. The Mayor welcomed County Councillor B Cossey to the meeting and invited him to give any reports/update on County Council matters.

Councillor Cossey confirmed that the County Council had increased council tax by 9.6%, but that it was still cheaper than both Gwynedd and Denbighshire. He confirmed that task and finish groups had been set up to look at education (to include reviewing the schools' and central budgets) and social services, as the two biggest services provided by the Council. A Play Provision Task and Finish group has also been started and Cllr M Worth has been appointed on behalf of the Central Area town and community councils. He confirmed that not all 'play areas' would necessarily need to have formal play equipment. A staff member is reviewing all of the existing provision and the group will meet again once this work has been completed.

He also reported that five tenders have been received for the construction of

the truncated Pier and it is hoped the contractor can be appointed shortly, possibly to include some additional ornamental/replica lighting columns.

Cllr B Cossey then retired from the meeting and Cllr C Hughes gave a brief report, expressing concern about the likelihood of more reductions to the funding that the Welsh Government receives from Westminster and the significant risk of further cuts to Local Authority budgets.

456/18 Minutes:

a. ***Resolved to approve and sign, as a correct record, the minutes of the last meeting of the Council, held on 4th March 2019.***

b. ***Resolved to receive a copy of the minutes of the following meetings:***
   i. The General Purpose & Planning Committee held on 19th March 2019.
   ii. The Policy & Finance Committee held on 27th March 2019 (Draft).
   iii. The General Purpose & Planning Committee held on 9th April 2019 (Draft)
   iv. The Colwyn in Bloom Committee held on 21st February 2019. (Draft)

457/18 Matters Arising from Those Minutes:

a. **Min. 403/18(c)(ii) – Town Branding:**

i. The Clerk submitted a brief report, following a meeting with the BID Manager on 4th April, and members were asked to consider whether the BID's chosen brand "# We are Bay of Colwyn", could work for the residents, tourism and community/ voluntary sectors too. A copy of the BID brand, with imagery from NW Tourism, was submitted with the report.

Concern was expressed about the mixed use of lower-case and upper-case lettering, which some members felt sent out the wrong message to young people. Schools needed our support in reinforcing the need for accurate grammar and spelling. Members understood that this brand may work for some businesses, but expressed concern that it was not a brand they felt would be appropriate to use for heritage, culture, tourism etc. It was also queried how the BID brand affected Mochdre, which was not part of the Bay of Colwyn area.

Resolved to request that the Clerk reports back to Bay Life to confirm that the Town Council is aware that Colwyn BID has already adopted its preferred brand, but that this is not a brand that the Town Council wishes to be associated with.

ii. **Gateway Signage:** The Clerk tabled a draft design for Gateway Signage, a project being led by Colwyn in Bloom with support (and funding) from Colwyn BID. Members were asked to consider the proposed design elements and text for the signs, which would be in two parts. The top section would be shaped and include the town crest and 'Croeso' / 'Welcome' together with the community name (Old Colwyn, Colwyn Bay, Rhos on Sea and Mochdre – with Mochdre signs to be

funded by Colwyn BID). A separate plate would be added below the main welcome sign, to include the wording 'Bay of Colwyn', the RHS logo and 'gold medal winner'.

It was queried whether any more interesting imagery could be added, as with the Llandudno Junction signs (train picture). However, the Clerk reported that she had been advised that the design standards were very limited for Highways signage and any non-standard text/design would have to have Welsh Government approval, or be treated as an advertisement, with associated planning permission requirements.

Resolved to approve the draft design for both the welcome signs and proposed plates underneath, subject to approval of the final designs, to confirm the sign sizes/colours etc.

b. **Min. 403/18(c)(iii) – Clerks' Network Meeting:**

The Clerk submitted, for information, the notes from a recent meeting with the Clerks of Mochdre and Llysfaen and members were asked to consider/endorse the recommendations in section 4.

Resolved to endorse the recommendation to work more closely with the other town and community councils in the central area, in the way outlined in the Clerk's report.

c. **Min. 404/18 – Old Colwyn Promenade**:

The Clerk submitted, for information, responses from CCBC, Network Rail and Welsh Water. It was noted that responses are still awaited from the Head of ERF, CCBC and from two departments of the Welsh Government.

Resolved to request that the Clerk chases the outstanding replies.

d. Members were then asked to consider and endorse the recommendations of the Committees, as detailed in the following Minutes:

i. **Min. 428/18(b) – Youth Engagement:**

The Clerk submitted an updated report and recommendations for youth engagement. It was noted that recommendations 4.2 to 4.7 were intended to replace the original recommendation (4.1) to provide a strategy for engagement with young people that could adapt to the different reasons for engagement.

Cllr A Kealey confirmed his support for this approach and asked colleagues to engage with and support any local young people showing an interest in local democracy or politics.

Resolved to adopt points 4.2 to 4.7 of the report (as detailed in Schedule 'A' attached) as the Town Council's Youth Engagement Strategy.

ii. **Min. 433/18 – Election of Chairman and Vice-Chairman of Committees:**

Members were asked to consider a request to amend the recently updated Standing Orders to enable the Committees of the Council to elect their own Chair and Vice-Chair at the first meeting following their re-appointment each year.

Resolved to approve an amendment to Standing Orders 4d(vi) and 4d(vii), as detailed in Schedule 'B' attached.

iii. **Min. 439/18 (b)(ii) - Funding for CCBC Major Events in 2019:**

Resolved to defer this item to the end of the meeting, to enable the Council to exclude members of the public, whilst confidential information is discussed relating to the Wales Rally GB event.

iv. **Min. 439/18(c) – Small Grants:**

Resolved to approve the last batch of small grants for 2018/19, as detailed in Schedule 'B' to those minutes, and to include donations from the balance remaining to the Sir John Henry Morris Jones Trust Fund and the Llandrillo Charities.

e. ***Resolved to note the resolutions of the Committees, as detailed in the Minutes.***

458/18 Conwy CBC:

Resolved to receive the minutes and note the actions of the Town & Community Council Forum and the Clerks' Network Meeting, held on 29 January 2019.

459/18 Assets & Services Working Group:

a. The Clerk submitted the notes from the first meeting of the group, held on 27th March. It was noted that Llysfaen CC has approved the appointment of members to a joint steering group and that response are awaited from Mochdre CC and Betws yn Rhos CC.

b. Resolved to approve the Terms of Reference for the group, as detailed in Schedule 'C' attached.

460/18 ACT Training (for Events):

The Clerk submitted, for information, the notes from the recent training session. Cllr S Williams gave a brief verbal report, as one of the Members who had attended. It was noted that the presentation had been interesting and relevant and well-received by the event organisers in attendance.

461/18 Old Colwyn War Memorial Committee:

The Clerk gave a brief verbal report, following a meeting of the group held on 9th April. It was noted that neither of the town council appointed representatives had been able to attend, but that the Clerk had been informed

that the Church in Wales carries overall responsibility for the memorial, as it is sited on Church land. The purpose of the Committee is to support the Church with ongoing maintenance and to assist with the organisation of the annual Service of Remembrance. The Town Council's representatives on the Committee would be reappointed at the meeting on 10th June. Cllr Bradley had indicated that he may have to stand down, as he would find it difficult to attend daytime meetings.

An update had also been given to the Clerk regarding the local branch of the British Legion. The District had taken over administration of the branch and the support/involvement in the annual Service of Remembrance may be affected. The Clerk advised members that she would organise a meeting in June to discuss this year's event.

Resolved to request that the Clerk follows up the request for contact details for the Everton & District Pipe Band and seeks to book these at the earliest opportunity.

462/18 Older People's Day at St Paul's Church:

Cllrs G Baker and C Matthews gave a brief verbal report on the event, which had been well attended/supported. It was noted that the Town Council's presence at the event had been welcomed.

Resolved to note the report.

***463/18* Annual Report:**

The Clerk submitted, for consideration, the first draft of the annual report for 2018/19 and gave a brief report on some proposed additions, following a review of the Llanrwst Town Council award-winning report.

Resolved to authorise the addition of the following sections, and to delegate authority to the General Purpose and Planning Committee to review the final draft, prior to it being adopted for publication at the Annual Meeting in May.

a. ***Updated information on income and expenditure for 2018/19, following completion of the annual accounts.***
b. ***Summary of activities for 2018/19 – additional information and some photographs***
c. ***Aspirations for the year ahead – addition of: engaging with CCBC on the updated LDP; partner in IMAGINE Colwyn Bay project; Gateway signage***
d. ***List of Council meeting and committee meeting dates for 2019/20***
e. ***Member attendance records and introductory paragraph.***
f. ***Intro to each ward and link to key stats on CCBC website***
g. ***Planning apps – description of town council's role and link to Planning Explorer and agenda page (for GP&P meeting – planning application lists).***

464/18 Nominations for Town Mayor and Deputy Mayor 2019/20:

The Mayor invited nominations for these offices, in preparation for the Annual Meeting on 13th May. The Clerk tabled the appropriate sections of the Council's Standing Orders and list of seniority of members, for guidance.

It was proposed and seconded that Cllr N Bastow, Deputy Mayor, be appointed Mayor Elect for the 2019/20 Municipal Year. Cllr Bastow accepted the nomination, which was supported unanimously.

It was proposed and seconded that Cllr Merrill Jones be appointed as Deputy Mayor Elect for 2019/20. There being no further nominations, Cllr Jones indicated her willingness to accept the nomination and this was unanimously approved.

465/18 Representation on Outside Bodies:

The Clerk tabled a copy of the current list of appointments and it was noted that these appointments will be reviewed at the meeting on 10th June.

Resolved to request that all Members notify the Clerk by 31st May if they wish to be removed from any of the outside bodies they are currently listed for.

466/18 Jess Glynne Concert:

It was noted that Members had been asked to contact the Clerk if they were interested in being considered for the Town Council's table at the event. Nine names had been submitted, to include the Mayor and Consort and a carer for Cllr H Meredith.

Resolved to confirm these attendees and to allocate the one remaining place on a first-come, first-served basis.

467/18 Min. 439/18 (b)(ii) - Funding for CCBC Major Events in 2019:

Resolved to exclude members of the public, to enable the Council to discuss confidential information relating to the Wales Rally GB event in 2019.

The Clerk gave a brief verbal report, to give members a brief outline of the proposed event. It was noted that these details are currently confidential, pending a press release/launch event.

Resolved to approve a payment of £15,000 towards town centre activities, in connection with the Wales Rally GB Event in 2019, subject to receiving a satisfactory response to the Committee's request for associated 'green' activities and efforts to prevent young people being encourage to drive too fast on public highways.

The meeting closed at 8.30pm …...…… Chairman